

Pentre Awel : Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg 1/3/23



Sylwadau Cymdeithas yr Iaith

Cyflwyniad

- Datganiad o genhadaeth “Creu datblygiad cynhwysol lle mae pobl o bob oed a gallu yn cael cyfleoedd i weithio, dysgu, byw a chwarae yn Gymraeg”. Mae’n dda bod datganiad clir o genhadaeth, ond y broblem yw fod y nod yn gyfyngedig i greu “cyfleoedd” i ddefnyddio'r Gymraeg, a chyfleoedd felly i'w hanwybyddu. Dylai'r nod fod yn fwy cadarnhaol o ran “normaleiddio gweithio, dysgu, byw a chwarae'n Gymraeg”
- Y mae'r cynllun yn mapio'n systematig â thair thema strategol *Cymraeg 2050* er mwyn sicrhau fod Pentre Awel yn: (i) cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg; (ii) cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; a (iii) chreu amodau ffafriol i'r Gymraeg. Ond dylid gosod y dair thema yng nghyd-destun nod Fforwm Iaith Sir Gaerfyrddin o “wneud y Gymraeg yn brif iaith y sir”. Dylid ailedrych ar wahanol adrannau o'r Cynllun Gweithredu i gysoni'r hyn sydd yn y Cynllun gyda'r ddrafft o'n Strategaeth Hybu 2 – sef newid ieithwedd “cynyddu defnydd” a chynnig “cyfleoedd” i nod mwy uchelgeisiol normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg i adlewyrchu cynnydd tuag at ddod yn brif iaith y sir, gan gydnabod mai dyma un o brosiectau pwysicaf y sir.

Asesiad Effaith ar y Gymraeg

- Croesawu'r gwaith trylwyr.
- Dull cytbwys o gofnodi'r effeithiau negyddol a chadarnhaol fesul elfen. Nod y Cynllun Gweithredu fyddai sicrhau mai'r senario cadarnhaol sy'n digwydd.
 - Elfen 1: Adeiladu Parth 1
 - Mae awgrymu fod denu mewnfudo'n “gyfle i ddangos aml-ddiwylliant” yn euphemism o'r radd flaenaf; yn ymarferol, bydd yn ddull o Seisnigo.
 - Hefyd mae'r cyfeiriad at “gyfleoedd i gaffael sgiliau Cymraeg” (yn hytrach na gwneud y Gymraeg yn rhan hanfodol o bob gweithgarwch) yn adlewyrchiad o Strategaeth 1 yr ydym yn symud oddi wrthi.
 - Elfen 2: Sefydlu Cyfleusterau Hamdden – Eto cyfeirir at sefydlu “opsiynau” Cymraeg yn hytrach na gweithio at wneud y Gymraeg yn rhan hanfodol o bob cwrs a gweithgarwch. Yn ddadlennol iawn, dywedir y gall Saesneg gael ei sefydlu “fel iaith weledol a gweithredol Y Ganolfan Hamdden newydd”, ond y gall “Y Gymraeg gael ei sefydlu'n weledol gyfartal”. Dyma gadarnhau trefn dwyieithrwydd gweledol ond gweithgarwch Saesneg.

- Elfen 4: Darparu cyrsiau / rhaglenni addysg bellach ac addysg uwch ym Mhentre Awel - Yn gyffredinol mae hwn yn dderbyniol ond mae cyfeirio at “mwy o gyfleoedd i ddysgwyr astudio yn Gymraeg”. Dylai meithrin y gallu i weithio’n Gymraeg fod yn rhan o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus.
- Elfen 6: Adeiladu Tai; Fforddiadwy, Cymdeithasol a Marchnad Agored – Rheoli “marchnad agored” er mwyn buddiannau cymunedol lleol yw raison d’etre Cynllun Gweithredu dros y Gymraeg.

Cyd-destun Strategol

Dywedir y bydd cysoni’r Cynllun Gweithredu gyda Strategaeth Hybu’r Iaith yn Sir Gâr. Mae angen i hyn ddigwydd o’r cychwyn.

Cyd-destun Demograffig

- Trosolwg defnyddiol sy’n tynnu sylw at anghenion ieithyddol poblogaeth eang.
- Croesawu’r bwriad i ymchwilio data ward lleol i helpu i lunio a datblygu’r Cynllun Gweithredu.

Camau Gweithredu / Cyfleoedd

- Gwelir ystod eang o gamau gweithredu a gyflwynir dan y penawdau a ganlyn:
 - Cyfathrebu – cyfathrebu, brandio, arwyddion
 - Caffael ac adeiladu – penodi prif gontractwr Parth 1, buddion cymunedol, arlwyio
 - Addysg, sgiliau a hyfforddiant – cyrsiau a rhaglenni, prentisiaethau a lleoliadau, Academi Iechyd a Gofal, sgiliau Cymraeg, yr Urdd,
 - Canolfan hamdden
 - Iechyd a llesiant (Canolfan darpariaeth glinigol) - gwasanaethau
 - Byw â Chymorth – mynediad at wasanaethau, byw’n annibynnol, unigrwydd ac arwahanrwydd
 - Datblygu busnes – cyfleusterau deori / sbarduno busnesau, swyddi
 - Diwylliant – celfyddydau perfformio / gweithgareddau awyr agored
 - Eraill – digidol
- Mae rhai camau gweithredu’n fwy amwys na’i gilydd. Disgwylir y bydd modd mireinio'r rhain fel mae’r gwaith yn mynd yn ei flaen ond mae’n bwysig gosod sylfaen gref o’r dechrau.
- Er mwyn bod yn eglur, awgrymir y dylid gwahaniaethu rhwng camau gweithredu a chyfleoedd ehangach.
- Er mwyn hwyluso’r craffu a’r monitro, awgrymir y dylai’r camau gweithredu fod yn rhai mesuradwy gydag amserlen ynghlwm. Wrth sicrhau hyn, y bydd modd sefydlu data sylfaenol y gellir eu cymharu er mwyn adrodd ar gynnydd.
- Rydym yn gwrthwynebu’r bwriad i sefydlu memoranda o ddealltwriaeth gyda rhan-ddeiliaid ynghylch eu darpariaeth Gymraeg. Yn hytrach, awgrymir y dylid cydweithio’n agosach er mwyn llunio polisiau ar y cyd gan ddefnyddio’r Cynllun hwn fel sylfaen.

Llywodraethu

- Croesawn y datganiad mai dogfen fyw yw hon a ddatblygir dros amser.
- Croesawn y bwriad i roi ar waith gyfarwyddbau polisi a strategol ehangach, gan gynnwys *Mwy na Geiriau* a *Strategaeth Gymraeg* y sir er mwyn ‘anelu at greu amodau ffafriol i ddefnyddio, hwyluso a hyrwyddo’r Gymraeg ar draws y llu o wasanaethau gwahanol sydd i’w lleoli ar y safle gyda golwg ar sefydlu’r Gymraeg fel iaith i bawb.’
- Croesawn y ffaith ‘y bydd Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd Bwrdd Prosiect Pentre Awel i sicrhau goruchwyliaeth ac atebolrwydd priodol’ a bod y Bwrdd Prosiect yn cynnwys cynrychiolaeth uwch-swyddogion o Gyngor Sir Caerfyrddin a rhan-ddeiliaid y prosiect.
- Mae Bwrdd y Prosiect yn arwain y strwythur llywodraethu ar gyfer Pentre Awel ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth uwch-swyddogion o Gyngor Sir Caerfyrddin a rhan-ddeiliaid y prosiect.
- Croesawn y ffaith ‘y bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei integreiddio i ffrydiau gwaith y prosiect i lywio eu rhaglen waith i’r dyfodol a hwyluso’r gwaith o gydgylltu gweithgaredd mewn perthynas â’r Gymraeg.’
- Credwn fod y methodoleg hwn yn cynnig arweiniad cadarn i gyrff cyhoeddus eraill.

Sylwadau Cyffredinol

- Croesawyn y cynllun arfaethedig a’r gwaith cynllunio manwl. Mae ymrwymiad i’r Gymraeg i’w weld yn gadarn drwyddi draw ond unwaith eto y gwelir yn gyson gyfeiriadau (Adran Addysg, Sgiliau a Hyfforddiant) at roi “sylw i gyfleoedd” a “phwysleisio mor ddefnyddiol yw sgiliau Cymraeg” a “hyrwyddo cyrsiau”. Nid yw’r gallu i gyflawni gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal a’r Saesneg yn cael ei bortreadu fel sgil addysgol hanfodol i bob myfyriwr.
- Gan ei fod yn ddibynnol, i raddau helaeth, ar bartneriaid allanol, bydd adolygu rheolaidd yn gwbl hanfodol. Gan fod mecanwaith i’w wneud yn eitem ar agenda pob cyfarfod, y disgwyliad yw y bydd y Cynllun Gweithredu’n esblygu’n gyson.
- Mae cyfle i gryfhau’r gweithredu mewn mannau a datblygu’r Cynllun ymhellach er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael y sylw mae'n ei haeddu

Cymdeithas yr Iaith
Mawrth 2023